

# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**  
01248 602131

[CyngorLlanllechid@ogwen.org](mailto:CyngorLlanllechid@ogwen.org)

26 Stryd Fawr  
Bethesda  
Gwynedd  
LL57 3AE

## Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd dros Zoom ar nos Iau 9 Gorffennaf, 2020 am 19.00

### 1. PRESENNOL:

#### Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Evan Jones  
Y Cynghorydd Geraint Hughes  
Y Cynghorydd Margaret Fernley  
Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris  
Y Cynghorydd Myfanwy Jones

#### Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Kevin Williams  
Y Cynghorydd Jên Morris

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Geraint Hughes.**

**2. Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Megan Tomos, Alun Thomas a Dafydd K Jones.

Cydymdeimlwn gyda Cyng. Megan Tomos yn dilyn profedigaeth yn ddiweddar iawn.

### 3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin, 2020.

### 4. Materion yn codi o'r cofnodion

**Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth** – draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystro'r llwybr cyhoeddus. Cyngor Gwynedd i gwblhau ychwaneg o ymchwiliadau pan fu'r tywydd yn addas. Gwaith gwair ar y caeau ar hyn o bryd, felly dim brys am ddiweddariad ar hyn o bryd. Y Clerc i holi am ddiweddariad ym mis Medi.

**Llifogydd Tan Lôn** – angen trefnu cyfarfod ar y safle gyda Stad Penrhyn, swyddogion Cyngor Gwynedd a cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned. Dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i holi Dafydd Meurig am ddiweddariad.

**Wal Maes y Groes** – adroddwyd bod car wedi taro'r wal ar y gornel unwaith eto a difrodi'r wal. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

**Lôn Goed** – cylfat diffygiol yn gwaelod y ffordd. Dŵr yn casglu ar y lôn pan mae wedi bod yn bwrw. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

**Rali 7fed Rhagfyr** – y Cyngor yn anhapus iawn gyda'r ymateb. Y Clerc wedi cysylltu gyda PCSO Iwan Owen i nodi ein pryderon am y diffyg hysbysu. Trosglwyddwyd ein

pryderon i'r adran diogelwch trafnidiaeth o fewn yr Heddlu, er mwyn gwneud yn siŵr na fyddai hyn yn digwydd eto.

**Wern Bach** – twll yn y ffordd. Y Cyng. Dafydd Meurig i holi am ddiweddariad.

**Clwb Rygbi Bangor** – pryderus am y golau llachar sydd ar y caeau dros y gaeaf. Traffig ar yr A55 yn cael eu dallu. Y Clerc wedi llythyru Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru. Llywodraeth Cymru wedi ymateb gan nodi bod hwn yn fater i'r adran gynllunio, Cyngor Gwynedd.

**Llwybrau cyhoeddus** – llawer o ddryswch yn enwedig ar ddechrau'r cyfnod clo ar ba lwybrau oedd y rhai cyhoeddus o gwmpas Fferm Tan y Garth. Y Cyng. Margaret Fernley am anfon labeli 'saeth' at y Cyng. Jên Morris. Y Clerc i drïo cysylltu gyda'r Adran Llwybrau yng Nghyngor Gwynedd.

**Cae chwarae** – Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am ganllawiau a rheolau ar gyfer y cae chwarae pan bydd yn gallu ail-agor.

## 5. Cyfarfod Blynyddol

Oherwydd y pandemig Cofid-19, penderfynwyd gohirio'r cyfarfod blynyddol tan y flwyddyn nesaf, a bydd y Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yn aros yn y sedd hon am flwyddyn arall. Cynrychiolwyr a'r bwyllgorau allanol ac aelodau Is-bwyllgorau i aros yr un fath hefyd.

## 6. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

J Johnson – torri gwair Mehefin

£120.00

## 7. Cae chwarae Tal y Bont

Dim byd pellach wedi digwydd gyda datblygu'r safle oherwydd Cofid19.

Y Clerc wedi holi am brisiau ar gyfer torri gwair y cae pêl-droed, ond heb dderbyn ymateb hyd yn hyn. Y Cyng. Margaret Fernley i edrych ar maint y giât (ar gyfer mynediad i dractor) ac i adrodd yn ol i'r Clerc, efallai gyda'r modd i gynnig y gwair i ffermwyr lleol.

## 8. Y Mynydd

Nodwyd bod y bugail yn ganol yr hel ar hyn o bryd. Y bugail i fynd ymlaen gyda'r sêl ar ddiwedd y mis. Y Clerc i ddanfôn rhestr porwyr i'r bugail.

## 9. Gohebiaeth

**Cyflwynwyd** – Llythyr gan Dilwyn Williams, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd – yn holi ein barn/ymdeimlad gyffredinol o fewn yr ardal ynglŷn a ymwelwyr yn gallu dod i'r ardal o'r 6ed o Orffennaf. Penderfynwyd bod angen danfon llythyr cryf iawn i ddatgan ein siom am ymddygiad rhai o ymwelwyr, llawer iawn ohonynt yn anwebyddu'r canllawiau o'r cychwyn, a'r diffyg pwerau i ddelio gyda hyn. Os byddai ail-don o'r feirws, bydd angen rheolau a canllawiau llym i amddiffyn pobl yn ein cymunedau.

**Cyflwynwyd** – e-bost gan Rhydian Roberts YGC – nodyn i hysbysu bod cais grant wedi bod yn llwyddiannus ar gyfer gwaith i uwchraddio'r cylfat o dan y ffordd gefn ger Tai'n Lôn.

## 10. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

**Partneriaeth Ogwen** – derbyniwyd copi o'r Rhaglen Waith Coronfeirws. Nodwyd yr aelodau eu bod wedi gweld cyfweiliad rhagorol diweddar Meleri Davies gydag Arloesi

Gwynedd Wledig, a diolchwyd i Meleri a phawb yn y Bartneriaeth am eu gwaith caled yn ystod yr amser anodd hwn.

**Problemau gyda ysbwriel** – Cyng. Geraint Hughes wedi cysylltu gyda Cyng. Dafydd Meurig i dynnu sylw at broblemau gyda ysbwriel yn yr ardal, yn enwedig ger Hendre Hall ac Allt Hendre. Aelod o'r gymuned, Beverley John wedi bod allan am ddyddiau yn hel ysbwriel yn ystod ei chyfnod ffyrlo o'i gwaith. Pawb yn diolchgar ac eisiau annog a chefnogi phawb sy'n mynd allan i gasglu sbwriel.

#### **11. Penderfyniadau Cynllunio:**

##### **C20/0154/21/CC**

Maes Carafannau Ogwen Bank, Bethesda  
Torri a thocio coed sy'n gorchymyn gwarchod coed

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

##### **C19/0950/21/LL**

Tir gyferbyn a Maes Bleddyn, Bethesda  
Codi 30 tŷ sy'n cynnwys 15 fforddiadwy, mynedfa newydd, parcio ynghyd a seilwaith cysylltiedig

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

##### **C20/0332/21/DT**

Bryn Derwas, Tal y Bont, Bangor  
Estyniad ar y llawr cyntaf ynghyd a chodi modurdy dwbl

**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau.

#### **Ceisiadau Cynllunio:**

##### **C20/0516/13/DT**

2 Parc y Moch, Bethesda  
Cais i ddymchwel ystafell wydr presennol a chodi estyniad deulawr yn ei le

**Penderfyniad:** Dim sylw

#### **13. Materion Brys**

**Gor-dyfiant ger Diffibriliwr Talybont** – adroddwyd fod llawer o or-dyfiant drain a chwyn ar y wal ble mae'r diffibriliwr wedi ei osod yn Nhalybont – cytunwyd y byddem yn gofyn i J Johnson gwblhau'r gwaith.

**Cae Chwarae Talybont** – y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am y gorriad i'r giât er mwyn cael mynediad gyda offer torri gwair.